

Neil Hemington
Prif Gynlluniwr
Yr Adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

29 Mehefin 2018

Annwyl Neil

ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH CYNGHORI AR GYNLLUNIO DATBLYGU CYFOETH NATURIOL CYMRU 2017–18

Gweler ynghlwm ein hail Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, sy'n adrodd ar ein perfformiad fel ymgynghorai arbenigol mewn ymateb o sylwedd o fewn yr amserlenni a bennwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y gofynion adrodd a amlinellwyd yn:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y diwygiwyd)
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016


Rydym hefyd wedi ystyried yr awgrymiadau a amlinellwyd yn eich llythyr dyddiedig 21 Mai 2018.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn glir i chi. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod y canfyddiadau a amlinellwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ymhellach, yn ogystal ag unrhyw ofynion o ran adrodd yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n berthnasol i adroddiad eleni, mae croeso i chi gysylltu ag Adrian James yn y lle cyntaf drwy e-bost:

adrian.james@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ar 03000 654354.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Keith Davies'.

Keith Davies

Rheolwr Cynllunio Tirwedd, Ynni a Newid Hinsawdd
Cyfoeth Naturiol Cymru